

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Dirybudd)

Ysbyty'r Fro - Nuffield Health

Dyddiad yr arolygiad: 16 a 17 Gorffennaf 2024

Dyddiad cyhoeddi: 17 Hydref 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN Digidol 978-1-83625-779-0

© Hawlfraint y Goron 2024

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	9
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	16
4.	Y camau nesaf .....	18
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	19
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	20
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty'r Fro - Nuffield Health ar 16 a 17 Gorffennaf 2024. Adolygwyd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward - 29 o welyau yn darparu gwasanaethau llawfeddygol

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod ansawdd profiad y claf yn dda iawn.

Mynegodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad â'r gofal a'r driniaeth roeddent yn eu cael. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus.

Gwelsom aelodau o'r staff yn ymdrin â'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf a oedd yn rhoi tawelwch meddwl iddynt.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn lân, yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd rhyngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, ac roedd y staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol
- Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi
- Roedd y cleifion yn cael sylw prydlon pan oedd angen cymorth arnynt
- Argaeledd gwybodaeth i gleifion
- Amgylchedd croesawgar sydd mewn cyflwr da.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn Ysbyty'r Fro - Nuffield Health yn ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd dull amlddisgyblaethol o gynllunio a darparu gofal.

Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal tosturiol, diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd ardaloedd y tu mewn a'r tu allan i'r ysbyty mewn cyflwr da iawn, roeddent yn lân, yn daclus ac nid oedd unrhyw risgiau amlwg i iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, gwelsom fod llwch ar arwynebeddau yn un o'r ystafelloedd storio ac ni allem weld unrhyw gyfarpar glân.

Roedd anghenion gofal y cleifion yn cael eu diwallu gan aelodau o staff a oedd yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch.

Gwelsom fod y cofnodion meddygol yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gwnaethom adolygu ymyriadau'r meddygon ac nid oedd cydsyniad y cleifion wedi cael eu dogfennu'n llawn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Mae angen i feddygon gwblhau'r ddogfennaeth a hynny'n fanwl
- Rhaid i'r staff meddygol sicrhau bod cydsyniad y cleifion yn cael ei ddogfennu yn y cofnodion meddygol.
- Sicrhau bod yr holl gypyrddau storio yn lân ac y gellir dod o hyd i gyfarpar glân yn hawdd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darparu gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn hwnnw
- Dull amlddisgyblaethol o ran cynllunio a darparu gofal
- Cynlluniau gofal a dogfennaeth ategol sy'n hawdd eu defnyddio
- Rheoli meddyginiaethau
- Atal a rheoli heintiau.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Roedd rheolaeth ac arweinyddiaeth dda yn yr ysbyty, ac roedd y mwyafrif helaeth o'r staff yn canmol y cymorth roeddent yn ei gael gan y tîm rheoli.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol yno.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cymorth a threfniadau goruchwyllo da gan y tîm rheoli
- Prosesau archwilio ac adrodd da
- Rheoli pryderon a digwyddiadau
- Hyfforddiant staff
- Proses recriwtio gadarn
- Proses arfarnu gadarn i'r meddygon sy'n gweithio yn yr ysbyty fel rhan o drefniadau Breintiau Ymarfer.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).



## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofalwyr. Cwblhawyd cyfanswm o 10 holiadur. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Nid yn unig y mae'r lle hwn yn dda iawn, mae wir yn rhagorol.  
Byddai'n braf pe gellid trin pawb yma”*

*“Mae'r lleoliad yn hyfryd ac mae'r ysbyty ei hun yn lân ac yn fodern. Roedd y staff a ofalodd amdanaf yn ardderchog ac ni allaf ddiolch digon iddynt.”*

#### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth a phamffledi yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn amrywiol rannau o'r ysbyty, ac roedd rhai ohonynt yn ddwyieithog.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol. Gwelsom y staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth.

#### Urddas a pharch

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y tîm staff.

Gwelsom aelodau o'r staff yn gwneud ymdrechion i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi cymorth iddynt ag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym fod y staff yn broffesiynol iawn, yn cynnal cyfrinachedd, yn garedig, yn barchus ac yn gwrtais. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr arolwg ar-lein wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff yn yr ysbyty.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur bod y staff wedi gwrandio arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn gallu siarad â'r staff am eu triniaeth heb i neb arall glywed.

Gwelsom ymgynghoriadau yn cael eu cynnal â chleifion yn breifat, tu ôl i ddrysau caeedig, er mwyn sicrhau na allai neb arall eu clywed.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn gweithio fel tîm, eu bod yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd a'u bod yn dangos gofal gwirioneddol tuag at y cleifion a thuag at ei gilydd.

### **Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion**

Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth ar gael i gleifion ar ffurf taflenni, llyfrynau a phosteri.

Cadarnhaodd y cleifion fod trafodaethau cyn llawdriniaeth a thrafodaethau am eu gofal wedi cael eu cynnal a'u bod wedi cael taflenni gwybodaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod wedi teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth, cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny, a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael, a risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gyfrannodd at yr arolygiad wrthym eu bod wedi cael eu hysbysu am gost y driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod wedi cwblhau ffurflen hanes meddygol neu fod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth, a'u bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt eu hunain ar ôl eu triniaeth.

Gwelsom fod trefniadau ffurfiol ar waith er mwyn cael cydsyniad y cleifion i gael triniaeth, gyda phob un a ymatebodd i'r holiadur yn cadarnhau eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiaduron yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael a risgiau a manteision yr opsiynau hyn.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Gwelsom aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion a gyda'i gilydd mewn ffordd barchus drwy gydol yr arolygiad.

Roedd arwyddion dwyieithog ym mhob rhan o'r ysbyty ac roedd rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag, nid oedd yr aelodau hyn o staff yn gwisgo bathodynau laith Gwaith. Trafodwyd hyn â'r tîm rheoli a chafodd y mater ei gywiro yn ystod ein harolygiad.

Dywedwyd wrthym hefyd fod gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion a oedd am gyfathrebu mewn ieithoedd eraill heblaw Cymraeg neu Saesneg.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad wrthym fod y staff yn ymateb iddynt yn brydlon ac mewn modd caredig a'u bod yn ateb unrhyw ymholiadau.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Roedd dull amlddisgyblaethol ar waith o ran cynllunio gofal a thriniaeth a oedd yn cynnwys y cleifion, Swyddog Meddygol Preswyl (RMO), meddyg ymgynghorol, anesthetydd, nyrsys, ffisiotherapyddion a fferyllwyr.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau gofal tri chlaf a gwelsom fod ansawdd y cofnodion yn dda. Roedd y cofnodion nyrsio a ysgrifennwyd â llaw yn ddarllenadwy ac yn gyfredol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y meddygon wedi cwblhau'r ddogfennaeth ar ôl rhoi triniaeth.

**Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod meddygon yn cwblhau'r ddogfennaeth feddygol ar ôl pob triniaeth.**

Roedd asesiadau cynhwysfawr yn cael eu cynnal cyn derbyn cleifion i'r ysbyty ac roeddent yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn ôl yr angen. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd cydsyniad y cleifion wedi cael ei ddogfennu'n llawn bob amser wrth edrych ar y nodiadau meddygol.

**Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y caiff y broses gydsynio ei dogfennu'n drylwyr.**

Roedd systemau cynllunio priodol ar waith ar gyfer rhyddhau cleifion, gyda chleifion yn cael eu hasesu gan weithwyr proffesiynol eraill fel ffisiotherapyddion cyn gadael yr ysbyty.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Roedd y staff wedi ymgymryd â hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ddarparu gofal. Er enghraifft, roedd drysau'r ystafelloedd gwely yn cael eu cau pan fyddai'r staff yn rhoi gofal ac wrth gynnal ymgynghoriadau.

Dyweddod pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir (ni waeth beth fo'u Hoedran, Anabledd, Statws aibennu rhywedd, Priodas a phartneriaeth sifil, Beichiogrwydd a mamolaeth, Hil, Crefydd neu gred, Rhyw a Chyfeiriadedd rhywiol).

Roedd pob rhan o'r ysbyty yn hygyrch iawn. Roedd lifft ar gael er mwyn cyrraedd y llawr cyntaf ac roedd y cyfleusterau toiled yn ardal y dderbynfa yn fawr ac yn cynnwys cymhorthion er mwyn helpu cleifion ag anghenion symudedd ychwanegol.

### **Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Roedd systemau cadarn ar waith i archwilio ac adolygu'r gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael eu hannog i gwblhau arolwg boddhad ar ôl cael triniaeth yn yr ysbyty.

Caiff yr holl arolygon boddhad cleifion eu gwerthuso gan y sefydliad ac roedd unrhyw adborth yn cael ei groesawu (yn gadarnhaol ac yn negyddol). Ethos yr ysbyty yw cyflawni gwelliannau parhaus a pharhau i ddysgu er mwyn cynnig profiad cydlynus o ansawdd uchel i gleifion.

Caiff y cleifion eu hysbysu o'r broses i'w dilyn er mwyn codi unrhyw bryderon / cwynion hefyd. Cyfeirir at hyn yn y datganiad o ddiben, y canllaw i gleifion ac ar wefan yr ysbyty.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd archwiliadau cyffredinol, archwiliadau clinigol mwy penodol ac asesiadau risg yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd peryglon amgylcheddol wedi cael eu nodi a'u hystyried mewn modd cynhwysfawr. Roedd polisiau, gweithdrefnau a phrosesau wedi'u rhoi ar waith er mwyn lleihau'r risgiau amgylcheddol. Roedd cynhyrchion glanhau yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd y Swyddog Meddygol Preswyl, a oedd wedi'i leoli ar y safle, yn rhoi gwybod i'r meddyg ymgynghorol â chyfrifoldeb am unrhyw newidiadau i gyflwr claf, ac ar y cyd â'r tîm nyrso, yn darparu cymorth meddygol 24 awr i gleifion.

Roedd y risg o gwmpo yn cael ei rheoli'n briodol drwy'r prosesau asesu ac adrodd cadarn a oedd ar waith.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r broses ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau a damweiniau yn ymwneud â chleifion. Gwelsom gofnodion o ddigwyddiadau a oedd yn dangos bod pob achos o ddigwyddiad, damwain a chamgymeriad a fu bron â digwydd yn cael ei gofnodi ac yn destun ymchwiliad priodol. Roedd y cofnodion yn fanwl ac wedi'u strwythuro mewn ffordd drefnus. Roedd unrhyw wersi a ddysgwyd o'r ymchwiliad yn cael eu rhannu â'r staff er mwyn eu hatal rhag digwydd eto ac i hyrwyddo arferion diogel ac effeithiol.

Roedd yr ysbyty wedi cynnwys llinellau atebolrwydd fel rhan o'r strwythur llywodraethu er mwyn uwchgyfeirio risgiau.

Roedd trolïau adfywio ar gael yn yr ysbyty a oedd yn cael eu defnyddio pe bai claf yn mynd yn sâl. Roedd y trolïau hyn yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau y gellid eu defnyddio mewn argyfwng.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol a phediatrig ac roedd pob aelod priodol o'r staff wedi cael hyfforddiant cynnal bywyd brys. Roedd y staff hefyd wedi cael hyfforddiant ar nodi cleifion sy'n gwaethygu ac roedd uwch-aelodau o'r staff nyrso wedi cael Hyfforddiant Cynnal Bywyd Uwch.

## Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Nodwyd gennym fod pob ardal a welwyd yn ystod yr arolygiad yn lân ac mewn cyflwr da ar y cyfan. Gwelsom fod llwch ar arwynebeddau yn un o'r ystafelloedd storio ac ni wnaethom weld unrhyw gyfarpar a oedd wedi cael ei lanhau. Aethpwyd i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad a gwelsom yr amserlenni glanhau.

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith wedi'i gefnogi gan amserlenni glanhau manwl ac roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cadw at y polisi ac egwyddorion arfer da.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod mannau diheintio dwylo wedi eu lleoli'n strategol o amgylch yr ysbyty at ddefnydd y staff ac ymwelwyr, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Roedd gan y staff wybodaeth dda am arferion atal a rheoli heintiau. Roeddent yn gwbl ymwybodol o'r gofynion hylendid dwylo a'r gofynion atal a rheoli heintiau. Roedd gwybodaeth am atal heintiau ar gael yn hawdd.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom bob gradd o staff yn cydymffurfio â'r gofynion golchi dwylo yn effeithiol.

Gwelsom fod pob darn o gyfarpar yn cael ei lanhau rhwng pob claf a bod labeli priodol yn cael eu defnyddio i nodi bod y cyfarpar wedi cael ei ddihalogi.

## **Maeth**

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gyfrannodd at yr arolygiad eu bod yn fodlon ar ansawdd, argaeledd a ffresni y bwyd a ddarperir.

Roedd hylifau ar gael i'r cleifion, ac roedd diodydd wedi'u gosod wrth erchwyn y gwely.

Roedd yr holl brydau yn cael eu paratoi'n ffres ar y safle bob dydd, ac roeddent wedi'u cyflwyno'n dda ac yn edrych yn flasu.

Roedd system effeithiol ar waith i ddiwallu anghenion deietegol cleifion unigol, gyda'r staff gofal a'r staff arlwygo yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd.

## **Rheoli meddyginiaethau**

Gwelsom dystiolaeth o arferion rhagorol mewn perthynas â storio, cyflenwi, llywodraethu a rhoi meddyginiaethau. Roedd y siartiau rhoi meddyginiaeth yn cael eu cynnal yn gywir.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol mewn ystafelloedd storio a'r ystafell drin y gellid eu cloi. Gwelsom nad oedd yr oergell feddyginiaeth wedi'i chloi. Er bod yr oergell yn cael ei chadw mewn ystafell y gellid ei chloi, gwnaethom gynghori y dylid cloi'r oergell hefyd. Gwnaed hyn yn ystod yr arolygiad.

Caiff yr ysbyty ei gefnogi gan fferyllfa yn ysbyty'r GIG lleol fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth ac mae fferyllwyr yn dod i'r ysbyty yn ddyddiol i sicrhau y caiff meddyginiaethau eu rheoli'n ddiogel ac i roi arweiniad i'r staff.

Roedd fframwaith ffurfiol ar waith er mwyn rheoli gwallau meddyginiaeth. Roedd unrhyw wallau a chamgymeriadau a fu bron â digwydd yn cael eu cofnodi a byddai'r

staff yn rhoi gwybod amdanynt er mwyn gallu ymchwilio iddynt. Rhoddir gwybod am ganlyniadau ymchwiliadau i'r staff i'w helpu i ddysgu ac er mwyn atal sefyllfaoedd lle byddai'r un peth yn digwydd eto.

Roedd prosesau cadarn ar waith i reoli'r broses o roi gwaed a chynhyrchion gwaed yn ddiogel.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Roedd polisiâu a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar y pwnc hwn. Pennaeth y Gwasanaethau Clinigol yw'r arweinydd diogelu ar gyfer yr ysbyty ac mae'n gyfrifol am reoli unrhyw atgyfeiriadau ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt i'r staff ar gyfer pob mater diogelu.

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Roedd gan yr ysbyty amrywiaeth o gyfarpar meddygol ar gael a oedd mewn cyflwr da ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol.

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Wrth drafod â'r staff ac edrych ar ddogfennaeth gofal, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Gwelsom fod y gofal yn cael ei ddarparu yn unol â fframweithiau a llwybrau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i gefnogi'r gofal a ddarperir, ac yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Gwelwyd tystiolaeth o weithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrsio, y staff meddygol a'r gweithwyr proffesiynol eraill.

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn ddiogel, yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Roedd systemau cadarn ar waith ar gyfer trosglwyddo cleifion i'r ysbyty cyffredinol dosbarth priodol agosaf mewn argyfwng.

Roedd poen yn cael ei reoli'n briodol drwy ddefnyddio adnoddau asesu poen ffurfiol a drwy roi meddyginiaethau lleddfu poen priodol, wedi'u rhagnodi.

### **Rheoli cofnodion**

Roedd systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn ymwneud â chleifion a staff yn cael ei chadw'n ddiogel, a hynny'n electronig ac ar bapur.

Roedd cofnodion gofal y cleifion wedi'u cynnal yn dda ac roedd y ffeiliau wedi'u trefnu mewn ffordd a oedd yn ei gwneud yn hawdd dod o hyd iddynt.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu a rheoli'r ysbyty.

Roedd systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau y rhoddir pwyslais ar wella'r gwasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod prosesau anffurfiol da ar waith i oruchwyllo a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd.

Gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff ac roeddent yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion.

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith gan aelodau o dîm uwch-reolwyr yr ysbyty i oruchwyllo'r gwasanaeth.

## Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Fel y soniwyd eisoes, roedd prosesau sefydledig ar waith i ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau. Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith ac roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn wedi'i nodi yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion ac ar y wefan.

Roedd pob cwyn yn cael ei chofnodi a'i harchwilio ac yn destun ymchwiliad trylwyr, gan dynnu sylw at y pwyntiau i'w dysgu a'u rhannu â'r staff i'w hatal rhag digwydd eto.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion yn ymwneud â phryderon a digwyddiadau, a chanfod yr ymdriniwyd â nhw yn unol â pholisiau'r ysbyty.

Roedd byrddau 'dywedo chi, gwnaethom ni' ar gael ar y ward ac yn yr ardal aros a oedd yn dangos bod newidiadau cadarnhaol wedi cael eu gwneud yn dilyn awgrymiadau a wnaed gan gleifion a staff.

## Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom fod tîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol yn yr ysbyty a oedd yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel.



Gwelsom fod digon o staff yn yr ysbyty ar ddiwrnodau'r arolygiad, gyda'r staff yn cadarnhau eu bod, ar y cyfan, yn gallu bodloni'r holl alwadau a oedd yn cystadlu am eu hamser yn y gwaith, a bod digon o staff ar gael iddynt allu cyflawni eu gwaith yn iawn.

Dywedwyd wrthym y caiff lefelau staffio eu haddasu yn unol â nifer y cleifion sy'n cael gofal a'u hanghenion gofal penodol.

Disgwylir i staff newydd gwblhau cyfnod sefydlu ffurfiol. Roedd y ddogfennaeth a welwyd yn ystod yr arolygiad yn dangos fod y broses sefydlu staff yn un gynhwysfawr.

Gwnaethom archwilio sampl o ffeiliau'r staff a chadarnhau bod hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol arall ar gael i'r staff. Rhoddwyd copi o gynllun hyfforddi staff yr ysbyty i ni a oedd yn gynhwysfawr ac a oedd yn cynnwys rhestr o'r pynciau yr eir i'r afael â nhw, dyddiadau cwblhau a dyddiadau y daw'r hyfforddiant cyfredol i ben. Roedd y ffigurau hyfforddiant gorfodol a gyflwynwyd i ni yn ystod yr arolygiad yn dangos cyfraddau cwblhau hyfforddiant da

Gwnaethom ofyn am wybodaeth mewn perthynas ag arfarniadau perfformiad a chadarnhawyd bod y rhan fwyaf o'r staff, gan gynnwys meddygon ymgynghorol sy'n ymweld â'r ysbyty, wedi cael arfarniad blynyddol o fewn y 12 mis diwethaf.

### **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Roedd proses recriwtio staff ffurfiol ar waith.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff a nodwyd bod y gweithdrefnau priodol wedi cael eu dilyn wrth recriwtio'r staff a bod gwiriadau recriwtio perthnasol wedi'u cynnal cyn i'r staff ddechrau gweithio.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom fod llwch ar arwynebeddau yn ystafell storio'n adran ffisiotherapi ac ni allem weld unrhyw gyfarpar glân.	Gall hyn achosi problem o ran rheoli heintiau.	Rhoddwyd gwybod i gyfarwyddwr yr ysbyty a uwchgyfeiriwyd y mater i'r aelodau priodol o'r staff.	Cafodd yr ystafell storio ei glanhau a gwelsom yr amserlenni glanhau.

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Ysbyty'r Fro - Nuffield Health

**Dyddiad yr arolygiad:** 16 a 17 Gorffennaf 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau uniongyrchol				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty'r Fro - Nuffield Health

Dyddiad yr arolygiad: 16 a 17 Gorffennaf 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff dogfennaeth ei chwblhau'n drylwyr gan feddygon ar ôl pob ymyriad meddygol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011  Rheoliad 23 (1) (a)	Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori Meddygol yn cysylltu â phob un o'r meddygon ymgynghorol â Breintiau Ymarfer er mwyn eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau o ran y safonau proffesiynol i'w dilyn mewn perthynas â dogfennaeth.  Caiff archwiliadau eu cynnal o'r ddogfennaeth bob chwarter gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol a bydd y canlyniadau yn cael eu rhannu yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynghori Meddygol.	Cyfarwyddwr Systemau Iechyd	Diwedd Hydref 2024

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ffurflen gydsynio wedi'i chwblhau ar gyfer pob claf.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011  Rheoliad 40 (2-4)	Er mwyn i ni ddarparu sylwadau, mae angen eglurhad pellach arnom ynghylch yr hyn a olygir gan " <i>sicrhau bod ffurflen gydsynio wedi'i chwblhau ar gyfer pob claf</i> " yn unol â'r ffurflen sylwadau ar gywirdeb ffeithiol.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	I'W GADARNHAU

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad: